# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(244)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol (45 munud)**

**4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Ardrethi Busnes (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Gwella uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru (30 munud)**

**6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Y wybodaeth ddiweddaraf am gydweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (30 munud)**

**7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Arloesi Meddygol (30 munud)**

**NDM5680 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Arloesi Meddygol sy'n ymwneud â thrin a lliniaru clefyd, salwch, anaf, anabledd ac anhwylder meddwl; darparu gwasanaethau iechyd; llywodraethu clinigol a safonau gofal iechyd i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Rhagfyr 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(ii).

Gellir gweld y Bil yn:
http://services.parliament.uk/bills/2014-15/medicalinnovation.html

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**8 Dadl: Adolygiad o Addasiadau Byw'n Annibynnol (60 munud)**
**NDM5682 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau addasiadau a sut maent yn helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain am gyhyd â phosibl.

2. Yn nodi canfyddiadau'r Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd ar 23 Ionawr 2015.

3. Yn cefnogi gweithredu gan Lywodraeth Cymru i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl sydd angen tai wedi'u haddasu.

Cewch weld copi o'r Adolygiad drwy ddilyn y linc a ganlyn:
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/review-independent-living-adaptations/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i lunio siarter cwsmeriaid yn amlinellu ymrwymiadau mewn perthynas â gwasanaethau addasiadau;

b) gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol i nodi safonau ar gyfer amseroedd darparu a sicrhau eu bod yn cael eu bodloni gan bob awdurdod lleol;

c) archwilio gwasanaethau addasiadau i ganfod arfer gorau a'i roi ar waith; a

d) rhoi mecanweithiau ar waith i fonitro boddhad cwsmeriaid a chanlyniadau tymor hwy.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod y profion modd ar gyfer addasiadau yn annheg ac yn hen ffasiwn.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi argymhellion allweddol yr ymgyrch Home Truths gan Leonard Cheshire Disability a'r adroddiad No Place Like Home.

Mae copi o'r adroddiad ar gael yma:

[http://www.leonardcheshire.org/who-we-are/publications/latest-publications-download/no-place-like-home#.VMpZXmYYTcs](http://www.leonardcheshire.org/who-we-are/publications/latest-publications-download/no-place-like-home#.VMpZXmYYTcs) (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol eithrio mân addasiadau o brofion modd, fel yr argymhellir yn yr adolygiad.

**9 Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 4 Chwefror 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29 Ionawr 2015 i'w hateb ar 3 Chwefror 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru i wella'r M4? OAQ(4)2094(FM)

**2. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth leol? OAQ(4)2069(FM)

**3. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000? OAQ(4)2087(FM)

**4. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi perthnasau rhyng-gymunedol cryf yng Nghymru? OAQ(4)2099(FM)

**5. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o gyfraniad mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc i gymunedau cefn gwlad Cymru? OAQ(4)2085(FM)

**6. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyrhaeddiad addysgol plant yng Nghymru? OAQ(4)2083(FM)**W**

**7. Aled Roberts (North Wales):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro prosesau rheoli'r gweithlu yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)2095(FM)**W**

**8. Sandy Mewies (Delyn):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y mae'r ymgyrch Dewis Doeth Cymru wedi'i chael ar y dewisiadau y mae cleifion sy'n ceisio triniaeth yn eu gwneud? OAQ(4)2098(FM)

**9. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd y sector adeiladu i economi Cymru? OAQ(4)2090(FM)

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i wella canlyniadau iechyd ar gyfer trigolion Canol De Cymru? OAQ(4)2092(FM)

**11. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gefnogaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru i grwpiau lleol sy'n cymryd y cyfrifoldeb dros gyfleusterau cymunedol? OAQ(4)2097(FM)

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu manylion ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol ar Brosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru? OAQ(4)2084(FM)

**13. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni rhoi'r gorau i ysmygu Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2082(FM)

**14. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ(4)2093(FM)

**15. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn y gorllewin? OAQ(4)2088(FM)**W**

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 10 Chwefror 2015 a dydd Mercher 11 Chwefror 2015**
**Toriad: Dydd Llun 16 Chwefror 2015 – dydd Sul 22 Chwefror 2015**
**Dydd Mawrth 24 Chwefror 2015 a dydd Mercher 25 Chwefror 2015**
**Dydd Mawrth 3 Mawrth 2015 a dydd Mercher 4 Mawrth 2015**

*********************************************************************

**Dydd Mawrth 10 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cyflwyno'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Datganoli trethi yng Nghymru – Ymgynghoriad ar Dreth Trafodiad Tir (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn: Lle i'w alw'n gartref? Adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio – diwygiad mewn perthynas â Gorchymyn Tai (Blaendaliadau Tenantiaeth) (Gwybodaeth Ragnodedig) 2007 (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – Memorandwm Rhif 6) (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddu Difrifol – diwygiad mewn perthynas â chyfathrebu'n rhywiol â phlentyn (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3) (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
    - Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2015

- Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Cynllunio (Cymru) (60 munud)
- Penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Cynllunio (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 11 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 24 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Treth ar waredu i safleoedd tirlenwi (30 munud)
- Trefn trafod y gwelliannau i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Setliad yr Heddlu 2015-16 (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2013-14 (60 munud)

**Dydd Mercher 25 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Andrew RT Davies (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 3 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar broses Dydd Gŵyl Dewi (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar y newid yn yr hinsawdd: The Road to Paris (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad OS ar Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgorau Cynghori ar Blaladdwyr) 2015 (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 4 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y gwaith craffu ar ôl deddfu o ran Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Russell George (Sir Drefaldwyn) (30 munud)